



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

Cyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw: 15 Ionawr 2024

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw ar 15 Ionawr 2024.

Cyhoeddwyd gyntaf: 29 Chwefror 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 29 Chwefror 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Yn bresennol

Cyfarfod blaenorol

Cyllideb Ddrafft 2024-2025

Y Strategaeth Tlodi Plant

Cynnig Gofal Plant Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Yn bresennol

- Mark Drakeford AS
 - Jane Hutt AS (Cadeirydd)
 - Rebecca Evans AS
 - Vaughan Gething AS
 - Lesley Griffiths AS
 - Julie James AS
 - Jeremy Miles AS
 - Mick Antoniw AS
-
- Hannah Blythyn AS
 - Dawn Bowden AS
 - Julie Morgan AS

Swyddogion

- Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Matthew Hall, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Philippa Marsden, Cynghorydd Arbennig
- David Hooson, Cynghorydd Arbennig
- Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg
- Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Gwledig

- Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad
- Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru
- Amelia John, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi
- Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd
- Jo Salway, Cyfarwyddwr Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Neil Buffin, Gwasanaethau Cyfreithiol
- Liz Lalley, Cyfarwyddwr, Adfer
- Matt Wellington, Trysorlys Cymru
- David Willis, Pennaeth Trechu Tlodi
- Theresa Jaynes, Trechu Tlodi
- Emma Spear, Cyfarwyddwr Cyffredinol Swyddfa HSS
- Charlotte Anscombe, Trechu Tlodi
- Clare Severn, Pennaeth Polisi Addysg a Gofal yn y Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae

Mynychwr allanol

- Ruth Marks, CGGC
- Andrew Morgan, Arweinydd, Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf
- Nisreen Mansour, WTUC
- Azim Ahmed, Cyngor Mwslimiaid Cymru
- Lisa Hayward, CLILC
- Paul Butterworth, Siambrau Masnach, Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ymddiheuriadau

- Eluned Morgan AS
- Lee Waters AS
- Lynne Neagle AS

Eitem 1: Cyflwyniad, croeso a chofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1 Croesawodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y Gweinidogion a'r partneriaid i'r cyfarfod. Croesawodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y Gweinidogion a'r partneriaid i'r cyfarfod.

1.2 Cytunodd yr Is-bwyllgor ar gofnodion 13 Tachwedd.

Eitem 2: Cyllideb Ddrafft 2024-2025

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, cyn trosglwyddo'r awenau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025.

2.2 Roedd y Gyllideb Ddrafft wedi'i chyhoeddi ar 19 Rhagfyr 2023, a byddai'r diweddariad hwn yn canolbwyntio ar y cyd-destun cyllidol ac economaidd diweddaraf a lywiodd y cynlluniau ochr yn ochr â'r penderfyniadau allweddol.

2.3 Roedd Cymru yn wynebu'r sefyllfa ariannol anoddaf ers dechrau datganoli ac wrth ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft roedd y Llywodraeth wedi wynebu cyfres o ddewisiadau anodd a phoenus.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

2.4 O ran y cyd-destun economaidd, roedd y wlad wedi bod trwy gyfnod digynsail, ar ôl ymdopi drwy bandemig Covid-19, rhyfeloedd yn Wcráin a'r Dwyrain Canol, y lefelau chwyddiant uchaf erioed ac argyfwng costau byw, a hynny wrth barhau i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a'r hinsawdd.

2.5 Yn y tymor agos, yn ôl rhagolygon OECD ac IMF economi'r DU yw un o'r uwch- economïau sy'n perfformio waethaf eleni a'r flwyddyn nesaf, o ran chwyddiant uchel a thwf gwan. Byddai safonau byw 3.5% yn is y flwyddyn nesaf na chyn y pandemig.

2.6 Yna trodd y Gweinidog at y cyd-destun cyllidol, gan nodi bod y Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi adrodd nad oedd cyllid cyhoeddus wedi gwella mewn ffordd ystyrlon, bod y rhagolygon twf wedi gwanhau, a bod disgwyl i chwyddiant aros yn uwch am gyfnod hirach.

2.7 Yn dilyn Datganiad Hydref Llywodraeth y DU, byddai setliad adnoddau Llywodraeth Cymru'n gostwng 0.1% yn 2024-2025 mewn termau real ac roedd y gyllideb gyfalaf i lawr 6% mewn termau real.

2.8 Ar y cyfan, roedd hynny'n cyfateb i ostyngiad o 1% flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn termau real yn y setliad, a oedd bellach yn werth hyd at £1.3bn yn llai mewn termau real na'r disgwyl adeg Adolygiad o Wariant 2021.

2.9 Roedd hi'n anochel, felly, wrth bennu Cyllideb Ddrafft 2024-25, fod rhaid gwneud penderfyniadau anodd iawn. Y penderfyniadau hyn oedd y rhai mwyaf amod a phoenus ers datganoli.

2.10 I hwyluso hyn roeddem wedi ail-lunio ein holl gyllidebau mewn ffordd radical yn unol â set o egwyddorion sylfaenol, sef diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd gymaint â phosibl; sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf; blaenoriaethu swyddi, ble bynnag y bo modd, a gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff eraill y sector cyhoeddus i wynebu'r anawsterau ariannol gyda'n gilydd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

2.11 Trwy gymryd y dull hwn, y ffocws oedd buddsoddi mwy yn y GIG a diogelu'r setliad craidd Llywodraeth Leol, a fyddai yn ei dro yn ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, a gwasanaethau beunyddiol hanfodol eraill y mae pobl Cymru yn dibynnu arnynt.

2.12 Roedd hyn yn cynnwys £450m yn ychwanegol i gefnogi'r GIG yn 2024-25. Roedd hyn ar ben y £425m yn ychwanegol a ddarparwyd ym mis Hydref ar gyfer 2023-2024.

2.13 Roedd setliad craidd llywodraeth leol wedi'i ddiogelu, ac ochr yn ochr â chynnydd o 3.1% a addawyd y llynedd, roedd £1.3m hefyd yn cael ei ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw i sicrhau nad oedd gan yr un awdurdod gynnydd o lai na 2% yn y setliad.

2.14 Yn ogystal, roedd cyllid a oedd yn cael ei ddarparu yn uniongyrchol i ysgolion wedi'i flaenoriaethu, gan gynnwys diogelu'r Grant Datblygu Disgyblion a oedd yn ariannu ysgolion i gefnogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel, ac roedd y rhaglen lwyddiannus Adfer ar ôl Covid, 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau' yn parhau.

2.15 Roedd y penderfyniadau hyn yn golygu bod rhaid gwneud penderfyniadau anodd pellach, gan gynnwys ailffocysu rhywfaint o wariant i ffwrdd o feysydd sydd heb eu datganoli. Roedd hyn yn cynnwys ailflaenoriaethu £15.5m o raglen Wcráin oherwydd y gostyngiad yn nifer y newydd-ddyfodiaid ochr yn ochr â llwyddiant y rhaglen i symud pobl ymlaen o'u llety cychwynnol.

2.16 Nodwyd bod £7.5m yn cael ei ail-flaenoriaethu o'r gyllideb ar gyfer PCSOs, ond bod £15.5m yn dal i gael ei fuddsoddi mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn golygu y byddai angen i bartneriaid plismona ail-lunio eu gweithlu a byddai'r Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i leihau'r effeithiau negyddol cyn belled â phosibl.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

2.17 O ran cymorth costau byw, roedd y Llywodraeth yn cynnal cymorth wedi'i dargedu a chymorth mewn argyfwng i bobl yr effeithiodd yr argyfwng arnynt. Yn ogystal, byddai pwysau yn dal i gael eu rhoi ar Lywodraeth y DU i gymryd camau ymarferol pellach.

2.18 Nid oes y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf blaenorol, a llawer o'r mentrau a fu'n cefnogi pobl yn 2022-23, ond yn bosibl oherwydd bod cyllid sylweddol wedi'i ddyrannu drwy gyllideb 2022-23. Yn anffodus, nid oedd y dyraniad cyllid oddi wrth Lywodraeth y DU yn ddigonol i alluogi llawer o'r cynlluniau hyn i gael eu cynnig eto.

2.19 Er hynny, roedd popeth posibl yn cael ei wneud i gefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw trwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r rhai yr oedd arnynt ei angen fwyaf a thrwy raglenni a chynlluniau sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl.

2.20 I'r perwyl hwn, roedd £0.5m ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r Sefydliad Banc Tanwydd yn 2023-24 i gefnogi aelwydydd dros gyfnod y gaeaf a oedd yn defnyddio mesuryddion rhagdalau am eu tanwydd, a byddai swm pellach o £0.5m yn cael ei ddarparu yn 2024-2025.

2.21 Gwnaed dyraniad o £2m, sy'n cynnwys refeniw o £1m a chyfalaf o £1m yn 2024-2025 i helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd trwy gymorth i sefydliadau bwyd cymunedol a chamau gweithredu i leihau ac atal yr angen am gymorth bwyd brys trwy atebion tymor hwy ar gyfer cyflenwad bwyd lleol cynaliadwy a chryf.

2.22 Roedd £18.8m yn ychwanegol ar gael i barhau â'r cymorth i'r Gronfa Cymorth Dewisol yn ystod 2024-25, gan ddod â chyfanswm cyllideb y Gronfa i £38.5m. Byddai'r cyllid ychwanegol yn galluogi'r galw cynyddol i gael ei fodloni, gyda mwy o bobl yn troi at y gronfa ar gyfer cymorth gyda chostau byw sylfaenol.

2.23 Byddai gwasanaethau cynghori yn parhau i gael eu hariannu, a fyddai'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

darparu cymorth hanfodol i bobl, a'r flwyddyn ganlynol byddai dros £11m ar gael ar gyfer gwasanaethau Cronfa Gyngori Sengl y Llywodraeth. Roedd y gwasanaethau hyn yn rhoi cymorth hanfodol i bobl sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, gan eu helpu i wneud y gorau o'u hincwm a delio â'u dyledion.

2.24 Adroddwyd y byddai'r sector gwirfoddol, trwy ei rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol, yn trafod ffyrdd creadigol o fynd i'r afael â'r materion cyllido, gan fod gan y sector fwy o hyblygrwydd o ran sut yr oedd yn ceisio adnoddau ychwanegol, a gwnaed y cynnig i drafod syniadau gyda phartneriaid ac i ddarparu data ansoddol a meintiol i gynorthwyo'r trafodaethau hynny.

2.25 Gwnaed cais am unrhyw waith rhagamcanu a oedd wedi'i wneud ar golli swyddi posibl, a fyddai'n arwain yn anochel at fwy o alw ar wasanaethau cynghori.

2.26 Yn ogystal, nodwyd bod busnesau'n llobio ynghylch ardrethi busnes, er bod cymorth o dros £1bn yn dal i gael ei ddarparu ledled Cymru, gyda bron hanner o fusnesau wedi'u hesemptio rhag ardrethi, a chroesawyd penderfyniadau'r Llywodraeth i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd.

2.27 Croesawodd yr Is-bwyllgor benderfyniad ymwybodol y Llywodraeth i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, er gwaethaf pryderon ynghylch cyllidebau a arweinir gan y galw, a nododd fod gwaith craffu'r Senedd yn parhau, gyda'r Gyllideb Derfynol i'w chyhoeddi ar 27 Chwefror.

2.28 Croesawodd yr Is-bwyllgor y diweddariad a diolch i bartneriaid am eu holl gefnogaeth drwy'r cyfnod anodd hwn, gan dynnu sylw at gryfder gweithio mewn partneriaeth drwyddi draw.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Eitem 3: Y Strategaeth Tlodi Plant

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yr eitem, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddi'r Strategaeth Tlodi Plant.

3.2 Roedd ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft wedi'i gynnal y flwyddyn flaenorol. Daeth i ben ym mis Medi a daeth 155 o ymatebion i law.

3.3 Gan adeiladu ar argymhellion Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, datblygwyd strategaeth ar y cyd gyda thros 3,000 o bobl â phrofiad bywyd. Roedd y strategaeth yn nodi gwaith trawslywodraethol a gyfrannodd at drechu tlodi ac anghydraddoldeb ac a nododd feysydd blaenoriaeth lle'r oedd angen ffocws o'r newydd i wireddu uchelgeisiau polisi'r Llywodraeth a'i phartneriaid cyflawni.

3.4 Adroddwyd y byddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad i'r Senedd i lansio'r Strategaeth ar 23 Ionawr.

3.5 Roedd y Strategaeth yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithredu yn y tymor byr a'r tymor hwy ac roedd pum amcan allweddol yn ganolog iddo. Mae'n nodi'r hyn y gallai'r Llywodraeth a'i phartneriaid yng Nghymru ei wneud gyda'i gilydd i helpu i ddileu tlodi plant yng Nghymru a lliniaru'r effeithiau gwaethaf i'r rhai sy'n byw mewn tlodi.

3.6 O ganlyniad i'r adborth o'r ymgynghoriad, roedd y cyflwyniad i'r strategaeth wedi'i addasu i adlewyrchu uchelgeisiau'r Llywodraeth a'i phartneriaid yn well ar gyfer pob plentyn, pob person ifanc a'u teuluoedd.

3.7 Yn ogystal, roedd y cynnwys ar hawliau plant a'r CCUHP wedi'i gryfhau, gan gynnwys cyfeiriad uniongyrchol at adnodd ac ymagwedd 'Y Ffordd Iawn' y Comisiynydd Plant. Roedd naratif cryfach ar hawliau plant yn fwy cyffredinol wedi'i gynnwys, ar CCUHP a'i erthyglau, gan gydnabod bod rhaid cyflawni'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gwaith hwn drwy ymagwedd gref at hawliau plant.

3.8 Adroddwyd bod y cynnwys ar bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar, ar y berthynas rhwng tlodi ac anghydraddoldeb iechyd ac ar dai hefyd wedi'i gryfhau.

3.9 Byddai'r Strategaeth yn canolbwyntio gweithgarwch ar y rhaglenni a'r ymyriadau hynny a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar leihau tlodi plant o fewn y pwerau sydd wedi'u datganoli i Gymru.

3.10 Cydnabu'r Is-bwyllgor na ellid mynd i'r afael â thlodi plant, a oedd mor hanfodol a chymhleth, ond pe bai'r holl Weinidogion yn gweithio gyda'i gilydd, fel un Llywodraeth Cymru, ac mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, y trydydd sector a busnesau yng Nghymru.

3.11 Byddai dull gweithredu cymuned ymarfer yn ddilyniant i'r uwchgynhadledd lwyddiannus a gynhaliwyd y flwyddyn flaenorol, fel y nodir yn y strategaeth. Byddai'r fforwm hwn yn dod â chydweithwyr o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector ynghyd i gymharu dysgu a rhannu arferion da i gefnogi dull cydgysylltiedig o ariannu, datblygu a gweithredu gwaith i greu 'Cymru Fwy Cyfartal,' gan gynnwys trechu tlodi plant.

3.12 Er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth, byddai Llywodraeth Cymru'n datblygu fframwaith monitro. Roedd gwaith i ddatblygu'r fframwaith monitro cadarn hwn yn cael ei ddatblygu ar fyrder a byddai'n cynnwys adolygiad arbenigol allanol o'r dangosyddion arfaethedig.

3.13 Byddai'r fframwaith yn cymryd i ystyriaeth y dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir cenedlaethol sydd yn eu lle o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y ffordd o ddangos atebolrwydd tryloyw.

3.14 Byddai'r fframwaith hwn, yn seiliedig ar ystod o fesurau, yn adlewyrchu'n fwy cywir y cynnydd yn erbyn dull y Llywodraeth o ymdrin â'r set gymhleth hon o broblemau na mesur sy'n seiliedig ar dargedau yn unig. Y ffordd fwyaf effeithiol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

o fesur gwaith fyddai drwy ddull gweithredu cydgysylltiedig ar draws pob lefel lle'r oedd pwerau perthnasol yn cael eu dal.

3.15 Cydnabuwyd mai cyhoeddi'r strategaeth, a datblygu'r fframwaith oedd dechrau'r daith, ac roedd yn bwysig cydnabod y sefyllfa gyllidol heriol, a fyddai, yn anorfod, yn effeithio ar raddfa a chyflymder y cyflawni.

3.16 Er gwaethaf hyn, roedd pethau y gellid eu cyflawni gyda'n gilydd i gefnogi pobl i gael mynediad at eu hawliau, i wneud y mwyaf o'u hincwm, i leihau costau bob dydd, i gael mynediad at wasanaethau ac i leihau'r rhwystrau a'r stigma yr oedd tlodi'n eu hachosi.

3.17 Croesawodd yr Is-bwyllgor gyhoeddi'r strategaeth a'r ffocws ar gydweithio â chydweithwyr a phartneriaid i bwrw ymlaen â hi a chyflawni newid gwirioneddol i blant a theuluoedd mewn tlodi.

Eitem 4: Cynnig Gofal Plant Cymru

4.1 Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yr eitem, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am Gynnig Gofal Plant Cymru, ac ehangu ei feini prawf cymhwysedd i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant.

4.2 Cydnabuwyd bod gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn galluogi rhieni i weithio, ac yn cefnogi'r ymgyrch i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi lleihau anghydraddoldeb.

4.3 Roedd y Cynnig Gofal Plant yn ymrwymiad allweddol o fewn y Strategaeth Tlodi Plant, yn enwedig o dan Amcan 2 a chreu llwybrau allan o dlodi.

4.4 Mae'r Cynnig Gofal Plant yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i blant 3-4 oed i rieni cymwys, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Roedd 12,873 o blant yn manteisio ar y Cynnig Gofal

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Plant ym mis Hydref 2023. Roedd hyn yn cyfateb i 57% o'r rhieni cymwys a amcangyfrifwyd.

4.5 Ei brif nodau polisi yw galluogi mwy o rieni i fynd yn ôl i'r gwaith, i gynyddu incwm gwario'r rhai sydd mewn gwaith a helpu i wrthweithio tlodi i'r rhai sydd mewn swyddi cyflog isel.

4.6 Yn aml, dyfynnwyd gofal plant fel y rheswm pam yr oedd rhai rhieni'n gweithio lle'r oeddent yn gweithio, yn gweithio'r oriau yr oeddent yn ei gweithio, neu ddim yn gweithio o gwbl, a gwaith sy'n talu'n dda yw'r llwybr gorau allan o dlodi, a'r amddiffyniad mwyaf rhag tlodi.

4.7 Canfu'r canfyddiadau gwerthuso annibynnol diweddaraf ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, unwaith eto, fod y cynllun wedi bod yn cefnogi cyflogaeth ymhlith rhieni ac roedd 75% o rieni wedi nodi bod y Cynnig yn ei gwneud yn haws iddynt ymgymryd â'u gwaith.

4.8 Yn ogystal, dywedodd 37% o rieni y byddent yn gweithio llai o oriau, pe na bai'r Cynnig ar gael iddynt, ac i rieni sy'n ennill llai na £26,000 y flwyddyn roedd yr effaith yn fwy byth gyda 42% yn dweud y byddent yn gweithio llai o oriau heb y Cynnig.

4.9 Cydnabuwyd y byddai ennill cymwysterau, ailhyfforddi a newid llwybrau gyrfa hefyd yn gam hanfodol i rai rhieni sy'n ceisio gwella eu rhagolygon cyflogaeth fel ffordd allan o dlodi. O'r herwydd, comisiynwyd ymchwil annibynnol yn 2019 i fapio'r gwahanol raglenni cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni mewn addysg a hyfforddiant a'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith. Roedd yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yn dangos y bylchau posibl a'r effeithiau a gafodd rhaglenni presennol ar ddileu costau gofal plant fel rhwystr i'r rhieni hynny.

4.10 Roedd hyn yn sail i ddatblygu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i'r Llywodraeth gefnogi mwy o rieni sydd mewn addysg a hyfforddiant, neu sydd ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gyrion gwaith. Roedd cefnogi rhieni mewn addysg a hyfforddiant gyda chostau gofal plant yn golygu y byddai nifer fwy o deuluoedd, ac yn enwedig menywod, yn gallu elwa ar well rhagolygon cyflogaeth.

4.11 Er mwyn galluogi hyn, ehangodd y Llywodraeth feini prawf cymhwysedd y Cynnig o fis Medi 2022 i rieni mewn addysg a hyfforddiant, gan gefnogi ymrwymiad Y Rhaglen Lywodraethu. Roedd yr ehangiad hwn yn gymwys i bob rhiant sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Addysg Uwch neu Addysg Bellach sydd o leiaf deg wythnos o hyd.

4.12 Mae ehangu'r Cynnig Gofal Plant yn adlewyrchu'r gwerth a roddir ar gefnogi'r rhai sy'n ceisio gwella eu rhagolygon cyflogaeth drwy ennill cymwysterau, ailhyfforddi neu newid llwybrau gyrfa.

4.13 Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2022/2023, roedd cymorth yn cael ei roi i 675 o deuluoedd ychwanegol o ganlyniad i ehangu'r Cynnig i gynnwys rhieni cymwys a oedd mewn addysg neu hyfforddiant.

4.14 Roedd hyrwyddo'r ehangu hwn, fel rhan o'r rhaglen Cynnig Gofal Plant ehangach, hefyd yn un o nodau allweddol y cynllun cyfathrebu strategol, gyda thimau cyfathrebu o fewn Llywodraeth Cymru ac o fewn yr Awdurdodau Lleol yn gweithio i hyrwyddo'r ehangu i rieni mewn addysg a hyfforddiant o fewn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach lleol.

4.15 Roedd llwyddiant y gwaith hyrwyddo hyd yn hyn wedi gweld nifer y rhieni mewn addysg a hyfforddiant a gefnogir gan y Cynnig yn codi i 1100 erbyn tymor yr Hydref yn y flwyddyn academaidd hon, o'i gymharu ag ychydig o dan 200 yn ystod tymor yr Hydref 2022/2023.

4.16 Awgrymwyd mai partneriaeth, unwaith eto, oedd y dull allweddol o sicrhau llwyddiant y polisi hwn a byddai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn fforwm defnyddiol i gyfleu'r neges hon ar draws rhwydweithiau megis y gofalwyr maethu, gofalwyr mabwysiadu a gofalwr sy'n berthnasau a rhwydweithiau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Meithrin a Chylch, ochr yn ochr â rôl i landlordiaid cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth i'w tenantiaid.

4.17 Rhoddodd y Dirprwy Weinidog y newyddion diweddaraf ar y rhaglen Dechrau'n Deg, a oedd yn cyrraedd ei dargedau ar hyn o bryd ar gyfer ail gam yr ehangu gyda bron 10,000 o blant yn cael eu cefnogi wedi inni gyrraedd y targedau ar gyfer cam un. Nodwyd bod y nifer sy'n manteisio ar Dechrau'n Deg yn rhyw 85%. Mae hwn yn gyfradd llawer uwch na'r Cynnig Gofal Plant, ond gyda'r dyhead y byddai'r niferoedd yn cynyddu gyda gwaith hyrwyddo parhaus a chymorth partneriaid i dynnu sylw at ei fanteision.

4.18 Byddai monitro'r nifer sy'n manteisio ar ehangu Dechrau'n Deg yn parhau, ochr yn ochr â monitro ehangach ar y Cynnig Gofal Plant yn ei gyfanrwydd. Byddai'n sicrhau bod darparu'r Cynnig i rieni mewn addysg a hyfforddiant yn cael ei amlygu drwy'r cylch parhaus o werthuso blynyddol. Pwysleisiwyd effaith gadarnhaol drawsgenhedlaeth y polisi hwn.

4.19 Croesawodd yr Is-bwyllgor y dull o gefnogi cynnydd mewn twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau gan gymaint o rieni mewn addysg a hyfforddiant, gan ddefnyddio Cynnig Gofal Plant estynedig y Llywodraeth ac ehangu Dechrau'n Deg, a nododd y gyfres o ddatganiadau llafar a drefnwyd ar gyfer y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Ionawr 2024

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygrychedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-15-ionawr-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).